

**Cofnodion Bwrdd y Gorfforaeth**  
**a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 13 Hydref 2016 am 5.00pm yn Ystafell y Bwrdd, Plas**  
**Sgeti, Tycoch**

|                      |                    |               |
|----------------------|--------------------|---------------|
| <b>Yn bresennol:</b> | Mr Colin Cornelius | Cadeirydd     |
|                      | Dr David Ashelby   |               |
|                      | Mr John Britton    |               |
|                      | Mr Ryan George     |               |
|                      | Mrs Carol Green    |               |
|                      | Mr Meirion Howells | (Tan Eitem 6) |
|                      | Mr Mark Jones      | Pennaeth      |
|                      | Mrs Chantal Patel  |               |
|                      | Ms Fiona Rees      |               |
|                      | Mr Kieron Rees     |               |
|                      | Y Cyng Christine   |               |
|                      | Richards           |               |
|                      | Y Barnwr Ray Singh |               |
|                      | Mrs Susan Williams |               |

|                     |                |                                          |
|---------------------|----------------|------------------------------------------|
| <b>Yn bresennol</b> | Mr Mike Glover | Pennaeth Cyllid                          |
| <b>hefyd:</b>       | Mr Paul Harris | Is-bennaeth (Gwasanaethau Corfforaethol) |
|                     | Mrs Kay Morgan | Is-bennaeth (Gwasanaethau Academaidd)    |

**Cofnodydd:** Mrs Sharon Barron      Clerc y Gorfforaeth

## 1 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Cafwyd ymddiheuriadau gan: Mr Tim Clark, Mr Mike Day, Mr Andrew Donald, Mr Ceri Low, Mr Gary Williams, Mr Samuel Williams.

## 2 Croeso i aelodau newydd

Roedd aelodau wedi croesawu Mr Ryan George, Mr Meirion Howells, Mr Kieron Rees a Mrs Susan Williams i'w cyfarfod cyntaf gyda Bwrdd y Gorfforaeth.

### 3 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 30 Mehefin eu **cymradwyo** fel cofnod cywir.

## 4 Adroddiad y Pennaeth

Roedd y Pennaeth wedi cyflwyno'i adroddiad.

Roedd Aelodau wedi nodi'r diweddaraf am y sector fel a ganlyn; adroddiad 'Adolygiad Cyllid Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru', Adolygiad Diamond; ymateb i arolwg Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Rhaglen Cydnerthedd AB; a datblygiadau a blaenoriaethau rhanbarthol eraill a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Roedd Aelodau wedi gwneud sylwadau ar y cyfleoedd posibl ar gyfer AU yn y Coleg gyda chanlyniad Adolygiad Diamond, ac yn enwedig argaeledd dyfarniadau

cynhaliaeth ar gyfer astudiaethau AU rhan-amser. Roedd y Coleg yn ymchwilio i'r cyfleoedd ar y pryd.

O ran trafodaethau cyflog AB ar gyfer 2016-17 roedd y Bwrdd wedi nodi bod Colegau Cymru wedi gwneud cynnig ar ran y sector o gynnydd o 1% ac roedd yn aros am ymateb gan y Cyd-undebau Llafur.

Roedd y Pennaeth wedi adrodd ar nifer o faterion cyfredol a cheisiwyd barn y Bwrdd ar nifer o faterion gweithredol. Ymhlith y rhain roedd cyfraddau llwyddo Safon Uwch, a oedd wedi gostwng o'r flwyddyn flaenorol; trafodaethau parhaus ynghylch ymuno â Chonsortium ar gyfer y tendr dysgu seiliedig ar waith ar gyfer 2018-21; cyrraedd y targedau ar gyfer Sgiliau ar gyfer Diwydiant 2; adleoli rhai cyrsiau galwedigaethol o gampws Gorseinon oherwydd y pwysau ar le a chyfleusterau ar y campws; a chyflwyno darpariaeth AU freiniol newydd gyda sefydliadau AU newydd yn Lloegr.

Roedd yr Aelodau wedi gwneud sylwadau ar y gostyngiad yn nifer y graddau A ac A\* fel % o'r holl gyfraddau llwyddo, ac fe'u hysbyswyd bod hyn yn cael eu harchwilio yn y Coleg ac y byddai'n cael ei adrodd i'r Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd; bod angen ystyried yr effaith bosibl ar y gymuned o ganlyniad i symud cyrsiau o gampws Gorseinon cyn gwneud penderfyniadau; a'r trafodaethau a oedd yn parhau gyda phartneriaid posibl ar gyfer consortiwm ar gyfer tendr y contract dysgu seiliedig ar waith - roedd yr Aelodau yn cefnogi hyn.

Roedd y Pennaeth wedi ceisio barn yr Aelodau ar y canlynol: cefnogaeth y Coleg o ddarpariaeth 6ed dosbarth yn enwedig mewn ysgolion yng ngogledd a dwyrain Abertawe; ac ymgysylltu â phartneriaid megis Canolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd a pharhau i ostwng ffigurau NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant). Roedd yr Aelodau wedi cefnogi'r ddau gynnig.

Roedd y Bwrdd wedi nodi bod nifer y dysgwyr Safon UG/Uwch amser llawn wedi cynyddu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a bod y nifer sy'n astudio rhaglenni galwedigaethol wedi gostwng. Roedd nifer y dysgwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau Addysg Uwch wedi cynyddu.

Roedd y Bwrdd wedi **nodi** defnyddio sêl y Coleg ar gyfer cytundeb partneriaeth y rhaglen Cynnydd a ariennir gan Ewrop dan arweiniad Cyngor Sir Benfro.

## **5 Cynllun Gweithredol Blynnyddol 2015-16**

Roedd y Bwrdd wedi cael copi o adolygiad terfynol Cynllun Gweithredol Blynnyddol 2015-16.

Yn gryno, cafodd Aelodau eu hysbysu bod 95% o'r amcanion wedi'u cyflawni neu wedi'u cyflawni'n rhannol. Roedd 49% o'r amcanion wedi'u cyflawni'n llawn neu roedd cynnydd yn erbyn yr amcanion fel y cynlluniwyd; roedd 46% o'r amcanion wedi eu cyflawni'n rhannol ac roedd 4% o'r amcanion heb gael eu cyflawni, neu ni wnaed unrhyw gynnydd yn eu herbyn, ac nid oedd yn bosibl mesur un o'r amcanion ar hyn o bryd.

O ran gwerthusiadau blynnyddol staff, dywedodd Mrs Kay Morgan y byddai'n rhoi rhagor o wybodaeth yn y cyfarfod nesaf ar nifer y gwerthusiadau a gynhaliwyd.

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi nodi'r adroddiad.

## **6 Cynllun Strategol 2016-2020**

Roedd y Pennaeth wedi dosbarthu drafft terfynol Cynllun Strategol 2016-2020.

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi nodi'r adroddiad.

## **7 Cynllun Gweithredol 2016-17**

Roedd y Bwrdd wedi adolygu'r Cynllun Gweithredol ar gyfer 2016-17.

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi nodi'r adroddiad.

## **8 Cyfrifon Rheoli ar gyfer y Cyfnod yn gorffen 31 Gorffennaf 2016**

Roedd y Bwrdd wedi adolygu'r Cyfrifon Rheoli ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2016, fel y cyfeiriwyd atynt gan y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol (Cofnod 12).

Roedd y Bwrdd wedi nodi bod cyfrifon a ffigurau'r Coleg ar gyfer Track Training Ltd heb gael eu harchwilio ac y gallen nhw newid; bod y cyfrifon wedi dangos gwarged bach o £87,000 er gwaethaf bod y Coleg wedi gweld toriad sylweddol yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru o £3.5m; ac mai'r gwarged arian gweithredol ar gyfer 2016 sef £2,708,000 (cyn ffioedd eithriadol a ffioedd nad ydynt yn arian parod) oedd yr uchaf ers corffori.

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi cymeradwyo'r Cyfrifon Rheoli ar gyfer y cyfnod yn gorffen 31 Gorffennaf 2016.

## **9 Y Diweddaraf ynghylch Ystadau**

Roedd y Bwrdd wedi cael y diweddaraf am ddatblygiadau ystadau'r Coleg.

Roedd yr Aelodau wedi nodi bod cymeradwyaeth gynllunio wedi cael ei dertbyn, a bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y byddai'n darparu 50% o'r cyllid ar gyfer datblygiad blaen y tŷ yn Nhycoch. Cynhaliwyd gwaith galluogi yn ystod yr haf a byddai'r prosiect ei hunan yn dechrau yn ystod hanner tymor mis Hydref.

Roedd gwaith ar y ffordd gyswllt rhwng Hill House a safle Tycoch wedi cael ei ohirio nes bod ateb yn cael ei ganfod i'r tir halogedig a ddarganfuwyd pan ddechreuodd y gwaith.

Roedd Aelodau wedi nodi bod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Ctfredinol wedi bod yn bryderus ynghylch y costau cynyddol cysylltiedig â'r cynnig i gyfrannu at y cae 3G yng Nghlwb Rygbi Casllwchwr, ac ni fyddai'r Coleg yn symud ymlaen ymhellach â'r cynnig hwn. (Cofnod 5)

Roedd gwaith yn mynd rhagddo ar gais cynllunio ar gyfer Canolfan Ffordd y Brenin (adeilad TSB gynt) ac roedd cynlluniau'r Coleg ar gyfer yr adeilad wedi cael eu rhannu â Chyngor Dinas a Sir Abertawe i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'u cynlluniau

nhw ar gyfer yr ardal.

Roedd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol wedi argymhell bod prydles Canolfan y Bont yn cael ei hymestyn am bum mlynedd pellach tan 31 Gorffennaf 2022 i Bartneriaeth Pontarddulais. (Cofnod 5.3)

Yn olaf, roedd y Bwrdd wedi nodi bod y Coleg wedi cysylltu â chymdeithas dai Pobl i ystyried opsiynau i ddarparu llety preswyl ar gyfer y cynnydd arfaethedig yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol.

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi **nodi'r** adroddiad ac wedi **cymeradwyo** estyniad y brydles fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.

## **10 Adroddiadau Pwyllgorau**

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi **nodi'r** adroddiadau ac wedi **cymeradwyo'r** penderfyniadau a gymerwyd yng nghyfarfodydd y pwyllgorau canlynol gan roi sylw arbennig i'r eitemau a nodwyd isod.

### **.1 Pwyllgor Archwilio - 29 Medi 2016**

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi **cymeradwyo'r** Adroddiad a'r Polisi Chwythu'r Chwiban Blynnyddol, gan gynnwys penodiad Mr Ray Singh fel yr Aseswr Dynodedig.

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi **cymeradwyo** nifer Aelodau'r Bwrdd a phwy ydynt.

### **.2 Bwrdd Cyfarwyddwyr Track Training**

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi **nodi** cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2016, 22 Awst 2016 a 3 Hydref 2016.

### **.3 Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu - 4 Hydref 2016**

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi **cymeradwyo'r** Adroddiad Chwilio a Llywodraethu Blynnyddol yn amodol ar y diwygiad i ddiweddarau eitem 15 yn yr adroddiad cyn anfon yr adroddiad i Lywodraeth Cymru.

### **.4 Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol – 6 Hydref 2016**

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi cymeradwyo'r Cyfrifon Rheoli ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2016 (Cofnod 8 uchod) a'r eitemau Ystadau (Cofnod 9 uchod) y cyfeiriwyd atynt ar gyfer penderfyniad.

## **11 Dyddiadau Cyfarfodydd yn y Dyfodol**

Byddai'r cyfarfodydd nesaf yn cael eu cynnal ar 15 Rhagfyr 2016, 9 Chwefror 2017, 23 Mawrth 2017, 11 Mai 2017 a 29 Mehefin 2017.

**Llofnod.....**

**Dyddiad.....**